**Bwrdd Hedfan Sioe Awyr Cymru - Amodau a Thelerau**

Mae'r Bwrdd Hedfan ar agor i'r rhai sy'n prynu tocyn. Mae'r tocyn yn rhoi hawl i'r deiliad gael mynediad i'r ardal drwy gydol yr oriau agor a hysbysebir. Mae'r bwrdd hedfan yn ardal laswelltog mewn safle ardderchog ger y senotaff. Yr oriau agor yw 11am - 6pm ddydd Sadwrn ac 11am - 6pm ddydd Sul.

Bydd yr ardal yn cynnwys:

•Bar y mae'n rhaid talu am y diodydd

• Cyfleuster arlwyo y mae'n rhaid talu am y bwyd

• Cyfleusterau toiled da

•Seddi

• Ardaloedd cysgodol

1. Mynediad drwy docyn yn unig. Nid oes angen tocyn ar blant 3 oed ac iau. Gellir prynu tocynnau ymlaen llaw neu ar y diwrnod am bris uwch (os oes rhai ar gael o hyd - gwerthwyd pob un ymlaen llaw yn 2024).

2. Ni chaiff pobl ddod i'r digwyddiad os bydd stiwardiaid yn tybio bod rhywun dan ddylanwad alcohol neu sylwedd anghyfreithlon.

3. Cynhelir y digwyddiad ar safle maes glas a gall y tir fod yn anwastad. Efallai y bydd heolydd a rampiau dros dro. Byddwch yn ofalus wrth gerdded ar y ffyrdd a'r rampiau hyn ac oddi arnynt neu wrth eu croesi mewn cadeiriau olwyn.

4. Mae'r tocyn hwn yn rhoi hawl i chi fynd i mewn i'r safle eto yn ystod yr amserau agor cyhoeddedig os ydych yn dangos y band arddwrn priodol.

5. Ni chaniateir plant dan 5 oed oni bai eu bod yng nghwmni oedolyn.

6. Er lles diogelwch, peidiwch â dod ag eitemau gwydr, barbeciws, canhwyllau na ffaglau wedi'u cynnau i'r ardal.

7. Mae'r holl ddeiliaid tocynnau'n caniatáu i gael recordiad ffilm a sain ohonynt eu hunain fel aelodau o'r gynulleidfa.

Efallai y bydd gwiriad diogelwch yn cael ei gynnal.

9. Mae Cyngor Abertawe'n cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw berson a gofyn i unigolion adael y lleoliad os ceir unrhyw ymddygiad difrifol, peryglus, gwrthgymdeithasol neu annerbyniol arall.

10. Mae'n rhaid i bob mynychwr feddu ar docyn y mae'n rhaid ei ddangos ar ffurf papur neu e-docyn er mwyn cael ei dderbyn i ardal y Bwrdd Hedfan.

11. Mae Cyngor Abertawe yn cadw'r hawl i wneud unrhyw addasiadau i'r manylion a hysbysebir ar gyfer y perfformiadau.

12. Ni fydd y tocyn yn cael ei gyfnewid na'i ad-dalu oni bai fod y digwyddiad cyfan yn cael ei ganslo. Rhoddir ad-daliad o fewn un mis calendr i ddyddiad y digwyddiad a drefnwyd yn y man prynu gwreiddiol.

13. Dewch â digon o ddillad sbâr cynnes a dwrglos oherwydd gall y tywydd newid yn gyflym ac efallai y bydd yn oer/wlyb. Gallwch ddod â chlustogau a rygiau os dymunwch.

14. Ni chaniateir cŵn, oni bai am gŵn tywys.